

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING:

15.12.17

EIRA – SNOW.

Ymddiheuriadau am orfod cau yr ysgol am ddau ddiwrnod oherwydd y tywydd garw gafwyd ddydd Gwener a thros y penwythnos, a diolchir i chi i gyd am eich cyd weithrediad yn ystod y cyfnod anodd pan fo tywydd garw yn ein taro'n annisgwyl.

Many apologies for having to close the school due to the atrocious weather we had last Friday and over the week end, and you are all thanked for your co-operation during the difficult time when bad weather comes unexpectedly.

CYFLWYNIADAU'R NADOLIG – CHRISTMAS PRESENTATIONS.

Cyfeiriaf yn ôl at y llythyr anfonais atoch ddydd Mawrth yn esbonio unrhyw newidiadau y bu raid i ni eu gwneud oherwydd y tywydd ynglyn â threfniadau gweithgareddau'r Nadolig.

I refer back to the letter sent to you on Tuesday explaining any changes we have had to make to the Christmas activities due to the bad weather.

Cynhaliwyd gwasanaeth Uned y Blynyddoedd Cynnar fore ddoe a heddiw, ac fe aeth popeth yn arbennig o dda a mwynhaodd y cynulleidfaoedd a ddaeth ynghyd gyfraniadau y disgyblion ieuengaf yn fawr iawn. Paratowyd lluniaeth ysgafn derbynol iawn gan bwyllgor Meithrin+ cyn i'r cyflwyniadau ddechrau.

The Early Years service was held yesterday morning and again this morning, and the large audiences who came together enjoyed the younger pupils' contribution immensely. Light refreshments were prepared by the Meithrin+ committee before the performances commenced.

Gwasanaeth Blwyddyn 1 a 2– Cynhelir y gwasanaethau hyn bnawn Llun, Rhagfyr 18fed am 1.30 p.m. a bore Mawrth, Rhagfyr 19eg. am 9.30 a.m. Edrychir ymlaen at gwmni teuluoedd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn y gwasanaethau hyn.

Years 1 and 2 service - *These services will be held on Monday afternoon, December 18th. at 1.30 p.m. and Tuesday morning, December 19th. at 9.30 a.m. We shall look forward to welcoming the Years 1 and 2 pupils' families to these services.*

Sesiynau Nadoligaidd Blwyddyn 3-6 Gwahoddir rhieni disgyblion Blynyddoedd 3-6 i ddod i wrando ar y disgyblion yn canu carolau a chaneuon Nadoligaidd ac i fwynhau paned a mins pei fore Llun, Rhagfyr 18fed. o 9.15-10.15 a.m. a phnawn Mawrth, Rhagfyr 19eg. o 2-3 p.m.

Christmassy sessions Years 3-6 – *The parents of Years 3-6 pupils are invited to come to listen to the pupils singing carols and Christmas songs and enjoy light refreshments on Monday morning, December 18th. from 9.15 – 10.15 a.m. and Tuesday afternoon, December 19th. from 2-3 p.m.*

RAFFL NADOLIG FFRINDIAU'R YSGOL – FRIENDS OF GLANRAFON CHRISTMAS RAFFLE.

Yn ystod pob un o'r cyflwyniadau, bydd pwyllgor Ffrindiau Glanrafon yn gwerthu tocynnau ar gyfer Raffl Fawr y Nadolig, lle mae cyfle i chi ennill nifer o wobrau gwerthfawr. Diolchir i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

During each of the presentations, the Friends of Glanrafon committee will be selling tickets for the Christmas Raffle, where there will be an opportunity for you to win a variety of valuable prizes. You are thanked before hand for your support.

DIWRNOD SIWMPERI NADOLIG – CHRISTMAS JUMPER DAY.

Edrychai pawb yn hardd iawn yn eu siwmperi Nadolig heddiw, a bydd y cyfraniadau o £1 yr un yn mynd tuag at gronfa Achub y Plant.

Everyone looked very smart in their Christmas jumpers today, and by the end of the day, and the money raised will be contributed to the Save the Children fund.

DARLLEN EU CERDDI – READING THEIR POEMS.

Aeth y disgyblion fu'n creu darnau o farddoniaeth gyda Caryl Parry Jones i fyny'n ôl i Theatr Clwyd i ddarllen eu barddoniaeth y bore 'ma. Llwyddodd y disgyblion i greu cerddi gafaelgar iawn yn seiliedig ar waith arlunio gan Cefyn Burgess yn nodi hanes yr ymfudo i Batagonia. Prosiect oedd hwn ar gyfer ysgolion Cymraeg Sir y Fflint.

The pupils who had created poetry with Caryl Parry Jones went back up to Theatr Clwyd this morning to read out their poems. The pupils created poems of a very high standard based on art work by Cefyn Burgess showing the history of Patagonia. This was a project for the Flintshire Welsh schools.

PARTION NADOLIG – CHRISTMAS PARTIES.

Isod, rhestrir y diwrnodau y cynhelir partion Nadolig y gwahanol flynyddoedd dysgu. **Caiff y disgyblion ddod i'r ysgol yn eu dillad parti ar ddiwrnod eu parti.**

*Below, is a list of the party days for the various teaching years. **The pupils can come to school dressed in party clothes on their party days.***

Dydd Mercher, Rhagfyr 20fed – Wednesday, December 20th.

Bore – Morning –

Uned y Blynyddoedd Cynnar (Meithrin a Derbyn) – *Early Years Unit (Nursery and Reception)*

Blwyddyn 1 a 2 – *Years 1 and 2.*

Pnawn – Afternoon.

Blwyddyn 5 a 6 – *Years 5 and 6.*

Dydd Iau, Rhagfyr 21ain – Thursday, December 21st.

Bore – Morning.

Blwyddyn 3 a 4 – *Years 3 and 4.*

DISGO NADOLIG FFRINDIAU GLANRAFON – FRIENDS OF GLANRAFON CHRISTMAS DISCO.

Yn dilyn llwyddiant y Disgo Hwyl Hydref, cynhelir Disgo Nadolig i ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 o 3-4 p.m. ac i ddisgyblion Blynyddoedd 3-6 o 4-5 p.m. **bnawn Iau nesaf, Rhagfyr 21ain. Caiff pawb ddod i'r ysgol yn eu dillad parti ar y diwrnod hwnnw hefyd (gan gynnwys disgyblion y Meithrin).** Anfonwyd ffurflen archebu tocynnau ar gyfer y disgo, a gofynnir i chi anfon rheini ynghyd â £2.50 y tocyn i'r ysgol erbyn dydd Llun nesaf, Rhagfyr 18fed os gwelwch yn dda.

Er mwyn sicrhau digon o oruchwyliaeth ar y disgyblion, gofynnir yn garedig am gymorth oddi wrth rieni yn ystod y disgo os gwelwch yn dda.

*Following the success of the Autumn Disco a Christmas Disco will be held for Reception, Years 1 and 2 pupils from 3-4 p.m. and for Years 3-6 pupils from 4-5 p.m. **next Thursday afternoon, December 21st. Everyone (including the Nursery pupils) can come to school in party clothes on that day also.** A ticket order form was sent to you recently, and you are asked to send the order together with £2.50 per ticket to school by next Monday, December 18th. please.*

In order to ensure sufficient supervision during the disco, we kindly ask for help from parents during the afternoon please.

CLWB PÊL DROED BLWYDDYN 1 a 2 – YEARS 1 and 2 FOOTBALL CLUB.

Er gwybodaeth i chi, **NI** fydd y Clwb pêl droed ar gyfer Blwyddyn 1 a 2 yn cymryd lle ddydd Iau nesaf, Rhagfyr 21ain. oherwydd disgo Nadolig Ffrindiau Glanrafon. Felly, bydd y Clwb yn ail ddechrau wedi gwyliau'r Nadolig.

*For your information, the Years 1 and 2 Football Club **WILL NOT** be taking place next Thursday, December 21st. due to the Friends of Glanrafon Christmas disco. Therefore, the club will re-commence after the Christmas holiday.*

SION CORN – FATHER CHRISTMAS.

Bydd yr ysgol yn prynu anrhegion sydd gyfwerth â £3 y plentyn ar gyfer y gwahanol ddosbarthiadau eleni eto, a bydd Sion Corn yn mynd o gwmpas y dosbarthiadau i'w dosbarthu fore Gwener nesaf, Rhagfyr 22ain.

School will be buying gifts equivalent to £3 per child for all the classes again this year, and Father Christmas will be going around the classrooms to distribute them next Friday morning, December 22nd.

CYMHORTHYDD AMSER CINIO – MID DAY SUPERVISOR.

Rydym yn chwilio am gymhorthydd i weithio yn ystod amser cinio am awr bob dydd o fis Ionawr 2018 am ddau dymor. Os oes gennych chi, neu y gwyddoch am unrhyw un, ddiddordeb i wneud y gwaith hwn, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol os gwelwch yn dda.

We are looking to employ a mid day supervisor to work during the lunch hour every day from January 2018 for two terms. If you, or you know of anyone, who would be interested in this post, please contact the school.

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S EVENTS.

- 18.12.17** Professor Llusern yn rhoi cyflwyniad i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen – *Professor Llusern to give a presentation to the Foundation Phase pupils.*
- 18.12.17** Sesiwn Nadoligaidd gan ddisgyblion Blwyddyn 3-6 – *Christmassy session by Years 3-6 pupils 9.30 – 10.30 a.m.*
- 18.12.17** Gwasanaeth Nadolig disgyblion Blwyddyn 1 a 2 – *Years 1 and 2 Christmas service – 1.30 p.m.*
- 19.12.17** Gwasanaeth Nadolig disgyblion Blwyddyn 1 a 2 – *Years 1 and 2 Christmas service – 9.30 a.m.*
- 19.12.17** Sesiwn Nadoligaidd gan ddisgyblion Blwyddyn 3 -6 – *Christmassy session by Years 3-6 pupils – 2-3 p.m.*
- 20.12.17** Parti Nadolig i ddisgyblion Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1,2, 5 a 6 – *Christmas party for Nursery, Reception, Years 1,2,5 and 6 pupils.*
- 20.12.17** Blwyddyn 3 a 4 yn mynd i weld ffilm Nadolig yn Y Fflint – *pnawn/afternoon – Years 3 and 4 pupils to see a Christmas film in Flint.*
- 21.12.17** Parti Nadolig Blwyddyn 3 a 4 – *Years 3 and 4 party -bore/morning.*
- 21.12.17** Blwyddyn 5 a 6 a rhai Blwyddyn 3 a 4 i weld ffilm Nadolig yn Y Fflint – *pnawn/afternoon – Years 5 and 6 and some Years 3 and 4 pupils to see a Christmas film in Flint.*
- 21.12.17** Disgo Nadolig Ffrindiau Glanrafon – *Friends of Glanrafon Christmas Disco – 3-4 p.m. a 4-5 p.m.*
- 22.12.17** Sion Corn yn ymweld â'r dosbarthiadau – *bore – Father Christmas to visit the classes – morning.*
- 22.12.17** Ysgol yn cau am wyliau'r Nadolig – *School closes for the Christmas holiday.*
- 09.01.18** Ysgol yn ail agor wedi gwyliau'r Nadolig – *School re-opens following the Christmas holiday.*